

## Mae angen Gweithredu mwy Cadarn yng Nghymru i Atal Bwlio

### Negeseuon Allweddol

- Mae'r dystiolaeth gan blant a phobl ifanc yng Nghymru yn dangos yn gyson bod angen i'r dulliau o fynd i'r afael â bwlio a'i atal fod yn fwy effeithiol. Mae bwlio yn fater diogelu sy'n niweidio llesiant plant, ac mae angen ymateb cadarn ar lefel genedlaethol i gyflawni newid.
- Rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno dyletswydd i gofnodi bwlio mewn ysgolion fel rhan hanfodol o ddull gweithredu gwrthfwlio effeithiol.
- Dylai'r canllawiau gwrthfwlio newydd – fersiwn wedi'i hailwampio o Parchu Eraill – gael eu cysylltu â Hunanwerthusiad Estyn ar gyfer Gwelliant, fel bod modd gwella effeithiolrwydd polisiâu a dulliau gweithredu gwrthfwlio ar draws y system.
- Mae angen i'r canllawiau gwrthfwlio a ailwampwyd, Parchu Eraill, gael eu hintegreiddio â dulliau eraill ysgol gyfan o ymdrin â llesiant.

### Cyflwyniad

Mae'r gwaith ar hyn o bryd i ailddatblygu canllawiau Parchu Eraill Llywodraeth Cymru yn gyfle pwysig i integreiddio dull gweithredu ataliol, gwrthfwlio, wrth ddiwygio addysg yn ehangach yng Nghymru. Yn y papur safbwynt hwn rwy'n amlinellu sut mae gwneud hynny a pham mae'n rhaid manteisio ar y cyfle pwysig hwn.

### Blaenoriaeth i Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd Plant, mae pob Comisiynydd yn eu tro wedi dadlau o blaid yr angen am sicrhau dulliau a strategaethau mwy effeithiol, ledled Cymru, i fynd i'r afael â bwlio a'i atal. Mae gwella'r ymateb i fwlio a'r dull o ymdrin ag ef yn dal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer fy nghyfnod innau fel Comisiynydd.

## **Beth mae plant a phobl ifanc yn dweud?**

Yn fy ymgynghoriad cenedlaethol yn 2015, *Beth Nesa*, fe wnes i ymgysylltu â mwy na 6000 o blant a phobl ifanc, a nodwyd mai bwlio oedd y brif flaenoriaeth ar gyfer newid yn y grwpiau oed 7-11<sup>1</sup> ac 11-18<sup>2</sup> fel ei gilydd. Mae fy ymgynghoriad cenedlaethol pellach yn 2018 gyda mwy na 10,000 o blant a phobl ifanc yn dangos ymhellach bod bwlio'n dal yn destun pryder difrifol a phwysig<sup>3</sup>. Cadarnheir canlyniadau'r arolygon hyn gan yr arolwg Ymddygiad Iechyd Plant Oed Ysgol yng Nghymru, lle canfuwyd bod bron un o bob pum person ifanc yn dweud iddynt fod yn rhan o fwlio yn ystod y misoedd diwethaf, a bod dros draean o bobl ifanc yn dweud iddynt gael eu bwlio yn ystod y misoedd diwethaf.<sup>4</sup>

Yn ogystal â bod yn bryder cyffredin, mae bwlio'n cael effaith ddwys ar blant a phobl ifanc. Yn fy adroddiad yn 2017, *Stori Sam: Gwranddo ar Brofiadau Plant a Phobl Ifanc o Fwlio yng Nghymru*<sup>5</sup>, bu dros 2000 o blant a phobl ifanc yn rhannu eu portreadau eu hunain o'r profiad o fwlio. Trwy ddadansoddi'r rhain gwelwyd sawl neges allweddol gan blant a phobl ifanc ynghylch eu profiadau, a lywiodd y 18 argymhellid a wnaed gennym yn fy adroddiad *Stori Sam*, nifer ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ailddrafftio'r canllawiau Parchu Eraill. Rwyf hefyd wedi cyflwyno argymhellion ynghylch dulliau gwrthfwlio yn y ddau Adroddiad Blynyddol diwethaf<sup>6 7</sup>, a derbyniodd Llywodraeth Cymru'r ddau ohonynt.

## **Beth sydd wedi cael ei wneud yn genedlaethol i sicrhau newid?**

Mae'n hanfodol bwysig bod **Llywodraeth Cymru yn trosi derbyn fy argymhellion yn weithredu, a bod y gweithredu hwnnw'n effeithiol**. Mae pob stori a delwedd sydd i'w gweld yn fy adroddiad *Stori Sam* yn atgof pwerus o'r effaith drychinebus y gall bwlio ei chael ar fywydau plant unigol. Mae angen diogelu plentyn sydd mewn perygl o ddioddef bwlio, neu sydd eisoes yn wynebu hynny. Mae methiant i ddeall bwlio fel hyn yn arwain at dulliau gweithredu ac

<sup>1</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/What-Next-7-11.pdf>

<sup>2</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/What-Next-11-18.pdf>

<sup>3</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/What-Now-Report.pdf>

<sup>4</sup> <https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151022-health-behaviour-school-children-2013-14-key-findings-en.pdf>

<sup>5</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/11/Sams-Story.pdf>

<sup>6</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Annual-Report-2017-18.pdf>

<sup>7</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/A-Year-of-Change-CCFW-Annual-Report.pdf>

ymatebion annigonol, sy'n atal plant rhag derbyn eu hawliau amddiffynnol, fel mae CCUHP yn gwarantu. Ni ellir gwahanu hawliau dynol, a gall plentyn nad yw'n cael ei amddiffyn yn ddigonol gael trafferth sicrhau ei hawliau eraill, sef goroesi a ffynnu, derbyn addysg, cael gwrandawriad a chyflawni potensial.

Fel Comisiynydd rwyf wedi ceisio cynnig atebion gweithredol i ymdrin â bwlio yn y cyfnod o ddwy flynedd wrth i'r Llywodraeth ailddatblygu'r canllawiau Parchu Eraill. Yn ogystal â'm hymgyngoriad a'm hadroddiad *Stori Sam*, bu fy swyddfa'n gweithio gydag ysgolion i greu pum cynllun gwaith gwrthfwlio, wedi'u gwahaniaethu yn ôl oed (yn cwmpasu'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4) a gyhoeddwyd gyda'r holl adnoddau ategol<sup>8 9</sup>. Lansiodd y rhain i gyd-fynd ag wythnos gwrthfwlio 2017. O fewn chwe mis roedd yr adnoddau ysgol gynradd wedi cael eu lawrlwytho 10,640 o weithiau, a'r adnodd uwchradd 1439 o weithiau. Yn ystod Wythnos defnyddio'r Rhyngwyd yn fwy Diogel 2019, lansiodd fy swyddfa *Paid â Phoeni, rydw i yma i ti: Profiadau Plant a Phobl Ifanc o Seiberfwlio yng Nghymru*<sup>10</sup>. Amlygodd yr adroddiad hwn ganfyddiadau allweddol o'm hymgyngoriad yn 2018 ynghylch seiberfwlio, ac mae tri Phecyn Gweithredu wedi'u gwahaniaethu i gyd-fynd ag ef. Datblygwyd y pecynnau hyn gyda phobl ifanc er mwyn galluogi newid dan arweiniad cyfoedion.

Ailddrafftio Parchu Eraill yw'r **prif gam gweithredu pendant** mae'r Llywodraeth wedi'i gymryd yn ystod fy nghyfnod i er mwyn mynd i'r afael â bwlio a'i atal. Mae llawer o bethau cadarnhaol yn y ddogfen ymgynghori a ailddrafftwyd, ac rwy'n croesawu'n arbennig gynnwys ffurflen cofnodi achosion o fwlio a ffurflen cofnodi achosion o fwlio ar-lein. Ond canllawiau anstatudol yw'r rhain, a awgrymir yn unig, ac mae hynny'n golygu bod ysgolion yn gallu dewis eu gweithredu neu beidio. Mae angen i'r Llywodraeth fynd yn llawer pellach i gyflawni newidiadau gwirioneddol a fydd yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc.

---

<sup>8</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/our-schemes/primary/useful-resources/>

<sup>9</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/our-schemes/secondary/useful-resources/>

<sup>10</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/dont-worry-im-here-for-you-children-and-young-peoples-experiences-of-cyberbullying-in-wales/>

## Pa gamau dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gyflawni newid effeithiol?

### 1. Rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno dyletswydd i gofnodi bwlio mewn ysgolion

Prif argymhelliad fy adroddiad *Stori Sam*, a wnaed ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, oedd y '*dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar ysgolion i gofnodi pob achos a math o fwlio yr adroddir amdanynt. Bydd hyn yn galw am ddiffiniad clir o fwlio, a ffurfir yn dilyn ymgynghoriad llawn â phlant a phobl ifanc.*'

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir bod cofnodi achosion o fwlio yn rhan hanfodol o ymateb effeithiol. Ond mae'n annheg i blant bod cofnodi achosion yn dal yn gwbl ddewisol i ysgolion oherwydd statws ymgynghorol y canllawiau a'r diffyg cysylltiadau amlwg â mecanweithiau statudol. Rhaid sicrhau dull gweithredu cryfach ledled Cymru er mwyn diogelu plant a phobl ifanc yn well, a dylai cofnodi fod yn rhan o hynny. Mae defnydd effeithiol o gofnodi yn golygu bod modd i waith ataliol ac ymatebol llawer gwell ddatblygu ar lefel ysgol, gan olygu y bydd llai o bobl ifanc yn bwlio, llai yn profi bwlio, ac y bydd yr ymatebion i fwlio yn fwy effeithiol. Yma rwy'n amlinellu rhai o'r pethau sy'n gwneud cofnodi'n bwysig:

- Bydd cofnodi pob math o achosion o fwlio (ar-lein ac all-lein) yn galluogi ysgolion i fod yn **atebol** i blant a phobl ifanc. Neges allweddol gan y plant yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer fy adroddiadau ar fwlio a seiberfwlio yn 2017 a 2019 oedd bod plant a'u teuluoedd yn aml yn teimlo bod dim byd yn cael ei wneud, ac nad yw bwlio'n cael ei gymryd o ddifri mewn ysgolion, fel y dywedodd un person ifanc, 'Dyw athrawon ddim yn gwneud llawer iawn amdano fe'.<sup>11</sup> Wrth i ni ymgynghori â nhw, mae pobl ifanc wedi disgrifio sut mae'r diffyg ymateb canfyddedig hwn yn methu â chefnogi'r rhai sy'n cael eu bwlio, a hefyd yn rhoi hyder i'r rhai sy'n gwneud y bwlio, felly mae'n gwneud y broblem yn waeth. Mae cofnodi achosion a'r camau a gymerwyd, ynddo'i hun, yn golygu bod ymateb ar unwaith ar lefel yr ysgol, fel bod plant yn gallu gweld nad yw eu profiad yn cael ei anwybyddu, a bod cofnod yn cael ei gadw.

---

<sup>11</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/Dont-Worry-Im-here-for-you-childrens-experiences-of-cyberbullying-in-Wales.pdf>

- Gall cofnodi olygu hefyd bod modd i athrawon **fonitro beth sy'n digwydd i blentyn unigol**, a hynny o ran y rhai sy'n bwlio a'r rhai sy'n cael eu bwlio. Gallan nhw asesu, dros amser a yw'r camau maen nhw'n eu cymryd mewn ymateb yn cael effaith. Mae cofnodi yn caniatáu **cyfathrebu** rhwng gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgol mawr, a hefyd rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'n sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a gofalwyr yn **cydweithio** i ymdrin â phroblemau.
- Mae cofnodi hefyd yn galluogi ysgolion i fonitro darlun ehangach: bydd ganddyn nhw ddata gwirioneddol i **lywio'u dull gweithredu ataliol**, ac yn gallu rhoi sylw i themâu a nodweddion bwlio y mae angen ymdrin â nhw ar draws yr ysgol gyfan.
- Trwy gamau monitro ac atal effeithiol bydd ysgolion mewn sefyllfa well i **fedru cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** trwy gofnodi a gwahanu achosion mewn perthynas â nodweddion a amddiffynnir. Wedyn gellir defnyddio hynny i adolygu amcanion cydraddoldeb ac **ymdrin â'r camwahaniaethu uniongyrchol** mae rhai plant a phobl ifanc yn ei wynebu trwy fwlio. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn gwneud y gwaith yma: mae *Hawliau Dynol Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r Dystiolaeth*<sup>12</sup> yn dangos bod plant a gweithwyr proffesiynol yn sôn am lefelau uchel o iaith a bwlio hiliol, rhywiaethol, homoffobig a thrawsffobig mewn ysgolion. Mae diffyg gwybodaeth am fwlio cysylltiedig ag anabledd, ond mae fy ymgynghoriadau gyda phlant a phobl ifanc yn awgrymu bod hynny'n digwydd hefyd.
- Bydd yn galluogi ysgolion i **werthuso'n well** eu dull gweithredu gwrthfwlio, er mwyn **canfod cryfderau a nodi polisïau neu arferion y mae angen iddyn nhw newid**. Bydd dilyn y dull gweithredu hwn yn galluogi ysgolion i brofi dulliau newydd a gwerthuso'u heffeithiolrwydd â gwybodaeth wirioneddol.

Gallai'r broses a'r offer a geir yn y canllawiau Parchu Eraill sy'n cael eu datblygu fod yn elfen ddefnyddiol iawn o ofyniad cofnodi. Byddwn i'n derbyn y gallai ysgolion fod yn gweithio ar eu diffiniadau eu hunain, y penderfynwyd arnynt ar y cyd, fel yr amlinellwyd yn y canllawiau drafft, gan nad wyf yn galw am gofnodi ar lefel y system, ond yn hytrach am gofnodi effeithiol ar lefel

<sup>12</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/The-Human-Rights-of-Children-in-Wales.pdf>

yr ysgol, fel bod modd defnyddio hynny ar gyfer gwerthuso. Dylai hyn fod yn rhan o'r agwedd onest, adfyfyriol at werthuso ysgolion sy'n cael ei datblygu gan Estyn gyda'r OECD, a dylai ffitio i'r system newydd o atebolrwydd a gafodd ei argymhell yn adolygiad annibynnol Estyn yn 2018<sup>13</sup>. Elfen ganolog o argymhellion yr Athro Donaldson yn yr adroddiad hwn yw gwerthusiad ar lefel y system sy'n cefnogi gwelliant, heb alw ysgolion i gyfrif mewn ffordd sy'n sbarduno ymddygiad gelyniaethus i blant. **Rwy'n galw am gofnodi ar lefel yr ysgol, yn hytrach na chofnodi neu gyhoeddi ystadegau; mae'n fater o ysgolion yn gweithredu i gefnogi eu dysgwyr a chynnal eu hawliau, yn hytrach na chyhoeddi targedau neu fonitro a allai olygu nad oes awydd i godi pryderon ynghylch bwlio.**

Mae'r newidiadau sy'n datblygu i systemau atebolrwydd fel rhan o'r broses diwygio addysg yn dangos bod y sgwrs ynghylch atebolrwydd ysgolion ac ar draws y system wedi datblygu'n sylweddol ers i mi gyhoeddi fy argymhellion ynghylch cofnodi yn 2017. Bryd hynny cefais ymateb gan y Llywodraeth oedd yn awgrymu y gallai cofnodi arwain at ganlyniadau anfwriadol trwy systemau cofnodi, ond roedd yr ymateb hwnnw'n adlewyrchu cyd-destun system atebolrwydd lle roedd llawer i'w golli, a lle defnyddiwyd data i raddio ysgolion mewn modd amrwd. Mae'r Llywodraeth wedi fy sicrhau bod y cyd-destun hwn yn newid, ac mae bellach yn bryd ailystyried sut gallan nhw weithredu ar yr argymhelliad hwn, gan ddefnyddio'r offer newydd sy'n cael eu datblygu gan Estyn a'r OECD, yn unol ag egwyddorion newydd atebolrwydd ar lefel yr ysgol a'r system.

## **2. Dylai'r Canllawiau Parchu Eraill gael eu cysylltu â Hunanwerthuso ar gyfer Gwelliant**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut bydd effeithiolrwydd polisïau a dulliau gweithredu gwrthfwlio yn gwella ar draws y system. Statws y canllawiau Parchu Eraill yw eu bod yn rhoi cyngor ac awgrymiadau i ysgolion, ond y gallant hwythau ddewis eu hanwybyddu. O ystyried effaith eang a difrifol bwlio, a chan fod y Llywodraeth yn cyfeirio at y canllawiau fel 'sylfaen eu dull o fynd i'r afael â bwlio', nid yw'r ymateb hwn yn ddigon cadarn. Ar hyn o bryd nid oes

---

<sup>13</sup> <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/A%20Learning%20Inspectorate%20-%20en%20-%20June%202018.pdf>

cynlluniau i roi cefnogaeth ychwanegol i ysgolion weithredu'r canllawiau neu i werthuso'r defnydd ohonynt, ac nid oes arwydd y bydd y drafft hwn yn fwy effeithiol na'r fersiwn flaenorol o'r canllawiau hyn. Yn wir, doedd llawer o weithwyr addysgu proffesiynol ddim yn gwybod bod y drafft blaenorol yn bodoli. Dull o ymdrin â gwrthfwlio sy'n cynnwys cymuned gyfan yr ysgol yw'r dull gweithredu cywir; mae llawer o dystiolaeth bod hon yn ffordd effeithiol o leihau bwlio.<sup>14</sup> Fodd bynnag, fel mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru wedi amlinellu, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhoi dulliau gweithredu ysgol gyfan ar waith, yn arbennig rhai sy'n integreiddio gwaith gwrthfwlio mewn modd cydlynus â dulliau eraill o gefnogi llesiant a iechyd meddwl, yn gallu bod yn heriol.<sup>15</sup> Dylid cydnabod y bydd rhoi'r canllawiau Parchu Eraill ar waith, i lawer o ysgolion, yn galw am newid diwylliant, gyda chefnogaeth dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth glir, gan arwain at newidiadau sylweddol o ran ymarfer. Ni fydd ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i hyn heb gefnogaeth neu gyfarwyddyd clir.

Mae cyfle, felly, i'r Llywodraeth nid yn unig ddatblygu cynllun estyn cefnogol, ond hefyd, ar lefel gweithredu cenedlaethol, mae cyfle ardderchog i gryfhau'r canllawiau hyn trwy ymgorffori'r ymarfer a ddisgrifiwyd yn adrannau 9 a 10 o'r fframwaith Hunanwerthuso ar gyfer Gwelliant sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Estyn a'r OECD. Os yw'r fframwaith hwn yn gofyn bod ysgolion yn gwerthuso'u hymarfer gwrthfwlio, yn unol â'r dull gweithredu a amlinellwyd, mae disgwyl amlwg i ysgolion ymgorffori'r arfer a gynghorir yn y canllawiau i'w dull mwy cyffredinol o ymdrin â llesiant, gan gynnwys gwreiddio dulliau gweithredu ataliol yn eu cwricwlwm. Wedyn byddai datblygu dealltwriaeth o'r egwyddorion, y rhesymeg a'r dull gweithredu a gyflwynir yn y canllawiau hyn hefyd yn dod yn elfen angenrheidiol o ddysgu proffesiynol, wrth i bob gweithiwr addysgu proffesiynol ddatblygu eu dealltwriaeth o ofynion y fframwaith gwerthuso. Byddai potensial wedyn i hynny greu'r newidiadau eang, a dwfn mewn rhai achosion, sy'n angenrheidiol os yw profiad plant a phobl ifanc o fwlio i newid mewn gwirionedd.

---

<sup>14</sup> <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/PPIW-Report-Promoting-Emotional-Health-Well-being-and-Resilience-in-Primary-Schools-Final.pdf>

<sup>15</sup> Ibid.

### **3. Mae angen i ganllawiau gwrthfwlio gael eu hintegreiddio â dulliau eraill ysgol gyfan o ymdrin â llesiant**

Nid yw'r canllawiau Parchu Eraill wedi'u hintegreiddio â mentrau a datblygiadau eraill sy'n ymwneud â dulliau ysgol gyfan o ymdrin â llesiant. Yn hytrach na bod y canllawiau'n un elfen o ddull gweithredu ehangach, ymddengys bod y canllawiau hyn wedi cael eu datblygu ar wahân i'r canlynol:

- Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant;
- y Cynllun Gweithredu ar gyfer Diogelwch Ar-lein;
- Gwaith a ddatblygwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Cyd ynghylch Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer ymdrin â Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl;
- y Fframwaith Hunanwerthuso ar gyfer Gwelliant sy'n cael ei ddatblygu gan Estyn a'r OECD, sy'n cynnwys llinyn ar werthuso llesiant.

Mae'n her i'r meysydd hyn groesgyfeirio'n benodol at ei gilydd pan fyddant i gyd yn cael eu datblygu, ond fy mhryder i yw bod y canllawiau Parchu Eraill wedi cael eu datblygu'n ynysig, heb gysylltiad â'r meysydd gwaith eraill hyn, ac felly nad ydynt o reidrwydd yn rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan cydlynus. Nid yw hyn yn cynorthwyo ysgolion, a all gael trafferth gwneud unrhyw newidiadau mewn ymateb i Parchu Eraill os nad yw'r gwaith hwnnw'n cael ei gefnogi neu ei annog gan newidiadau eraill i ddulliau gweithredu ysgol gyfan. Ni ddylai bwlio gael ei weld fel rhywbeth ar wahân i lesiant, ac os nad yw gwrthfwlio'n cael ei gynnwys yn benodol mewn dulliau gweithredu ysgol gyfan, bydd plant a phobl ifanc yn cael eu gadael i lawr, oherwydd mae eu profiadau'n dangos yn glir bod atal a mynd i'r afael â bwlio yn bryder cyffredinol, ac y dylai fod yn flaenoriaeth. Mae hynny nid lleiaf oherwydd bod tystiolaeth o gysylltiad rhwng bwlio a chanlyniadau iechyd meddwl a llesiant gwaelach, sy'n gallu cael canlyniadau trychinebus, gan fod pobl ifanc sy'n profi ac yn cyflawni seiberfwlio yn wynebu risg uwch o ymddygiad hunan-niweidio a hunanladdiad.<sup>16</sup>

O ganlyniad, rwy'n annog y llywodraeth i ystyried sut mae gwaith gwrthfwlio yn cael ei gynnwys mewn meysydd polisi cysylltiedig o ran dulliau ysgol gyfan o ymdrin â llesiant, a sut bydd Parchu

---

<sup>16</sup> John et al Self-Harm, Suicidal Behaviours, and Cyberbullying in Children and Young People: Systematic Review J Med Internet Res 2018 | vol. 20 | iss. 4 | e129



Eraill yn cael ei gysylltu â hynny. Bydd gofyn bod ysgolion yn datblygu gwaith mewn ymateb i'r meysydd polisi eraill hyn (megis y cwricwlwm newydd neu'r fframwaith gwerthuso newydd), ond ni fydd gofyniad i ysgolion ddatblygu gwaith mewn ymateb i Parchu Eraill. Rwyf eisoes wedi amlinellu awgrym posibl ar gyfer integreiddio'r canllawiau hyn i'r hunanwerthuso newydd, ond mae angen ystyried sut mae pob un o'r dulliau gweithredu hyn yn creu system gydlynus. Os nad yw'r dulliau gweithredu eraill hyn yn tynnu ar y canllawiau Parchu Eraill ac yn eu defnyddio, byddant naill ai'n awgrymu dulliau gwrthfwlio gwahanol (a fydd yn disodli dulliau gweithredu Parchu Eraill ac yn golygu bod y canllawiau'n ddi-fudd), neu ni roddir sylw i wrthfwlio, a fyddai'n fwch pwysig mewn dull gweithredu ysgol gyfan.

### **Y camau nesaf**

Mae pobl ifanc a phlant yn cyflwyno neges glir, a hynny'n gyson, bod angen gwneud mwy i atal bwlio a mynd i'r afael ag e. Yn rhy aml, mae plant a phobl ifanc yn teimlo nad yw oedolion yn cymryd bwlio o ddifri, ac nad oes dim yn digwydd os byddan nhw'n rhoi gwybod amdano. Mae'r diffyg dull gweithredu cenedlaethol cadarn yn arwydd bod y diffyg gweithredu hwn yn cael ei adlewyrchu ar lefel y Llywodraeth.

Byddaf finnau'n parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol cadarn, a chryfhau effaith y canllawiau newydd trwy eu cysylltu â'r fframwaith gwerthuso, y mae'n rhaid iddo gynnwys **dyletswydd i gofnodi a monitro bwlio**. Mae angen i ysgolion gasglu'r wybodaeth hon er mwyn bod yn atebol i blant a gwerthuso a gwella'u dull gweithredu gwrthfwlio a'u hymateb.

Mae bwlio'n cael effeithiau difrifol, hirdymor: mae'n atal plant a phobl ifanc rhag profi eu hawliau dynol, gan gynnwys eu hawliau i fod yn ddiogel ac i gael addysg. Ar hyn o bryd nid yw'r gyfraith yn gofyn bod ysgolion yn cofnodi ac yn monitro bwlio, ond dyna yw'r gofyn gan bobl ifanc Cymru. Rhaid i'r Llywodraeth gysylltu'r canllawiau newydd â **dyletswydd glir i gofnodi bwlio wrth werthuso ysgolion** er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.